

Cefnogwyr Cymorth Cristnogol yn ffarwelio â Tom Defis yn yr Eisteddfod

Ac yntau wedi gwasanaethu mudiad Cymorth Cristnogol yng Nghymru am bron i ddeng mlynedd ar hugain, fe ddaeth yn amser ffarwelio â Tom Defis, trefnydd y mudiad dros dde-orllewin a chanolbarth Cymru. Ar ôl bod ynglŷn â gosod nifer dirifedi o stondinau ac arddangosfeydd mewn eisteddfodau a digwyddiadau cenedlaethol, ac ynghanol llawer iawn o'i ffrindiau yn ardal y de-orllewin, doedd dim lle gwell i gydnabod ei wasanaeth ac i ddiolch iddo nag yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni. Daeth llond pabell yr eglwysi ynghyd o bell ac agos i dalu teyrnged iddo ar nos Fercher yr Eisteddfod.

Fe gafwyd gair o ddiolch am ei ffyddlondeb a'i gyfeillgarwch gan amryw fu'n cydweithio â Tom ac yn gyfeillion iddo. Cyflwynwyd englynion iddo o waith Dylan Iorwerth ar ran y pwyllgor lleol yn Llanbedr PS a cherdd wedyn gan Mererid Hopwood a luniwyd ar ran ei gyd-weithwyr dros y blynyddoedd ac a gyflwynwyd iddo gan Jeff Williams fu'n cydweithio ag ef. Am ugain o'r deng mlynedd ar hugain, mae Tom wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli eglwysi i godi arian ac i sefyll o blaid cyfiawnder i'r difreintiedig, gan geisio yn gyntaf Deyrnas Dduw bob amser. Cydnabuwyd hefyd gefnogaeth hael ei deulu bob tro iddo, ac yn enwedig Anona, ei wraig.

Yng ngeiriau Daleep Mukarji, Cynbrif weithredwr Cymorth Cristnogol rhwng 1998 a 2009, a oedd wedi anfon cyfarchion: 'Mae'n bleser mawr gen i ychwanegu ychydig linellau at eich ffarwél yng Nghymorth Cristnogol ar ôl cymaint o flynyddoedd o wasanaeth ymroddedig a brwd. Yr oedd eich rôl yng Nghymru a thrwy'r mudiad i gyd yn atgoffa cefnogwyr a'r cyhoedd yn

ehangach mai gwaith ynglŷn â newid, cyfiawnder cymdeithasol a dileu tloidi yw hwn – ein bod wedi ein gwreiddio ym mywyd a chenhadaeth yr eglwys ac wedi galluogi Cristnogion i roi eu ffydd ar waith gan weithio gyda phobl o bob ffydd a heb ffydd. Diolch am y cyfraniad a wnaethoch ac am yr arweiniad a ddangoswyd gennych. Pob dymuniad da yn y blynyddoedd nesaf. Bydded i Dduw eich bendithio.'

I Tom Defis wrth ymddeol o Gymorth Cristnogol

Mewn angen, y ffrind penna'; yn awr rhaid
Hwn yw'r un sydd gynta';
Mewn oriau dig, mynnu'r da
A thrwy'i waith rhoi i'r eitha'.

O Dalog, agor dwylo – i gynnal

Y gwan a'u grymuso;
Dyna'i fryd: troi'i fyd yn fro
Drwy estyn gofal drosto.

Dylan Iorwerth, Llanbedr PS

I ddiolch i Tom ar ran ei gyd-weithwyr – Awst '22

Mae angen crefftwr ar bob criw erioed,
y rhai all droi at lif a chaib a rhaw,
y rhai sy'n gweld celfcyn yn y coed,
y rhai â dawn dychymyg yn eu llaw;
'run modd mae angen rhai all drafod iaith
a phlethu'r geiriau bach yn gadwyn gref,
a rhai wêl werth ym mhopeth at y gwaith
o osod ar y ddaear seiliau'r nef;
ac wedyn beth am rai all ddal o hyd
i gredu drwy bob adfyd a phob siom –
mae angen rhain, ond prin daw'r doniau
'nghyd
mewn un cymeriad glân – un prin yw
Tom,
yr un a ddysga'n ddyddiol: er mwyn byw
mae angen ceisio'n gyntaf deyrnas Duw.

Mererid Hopwood



Tegwen Morris yn cyflwyno anrheg i Tom ar ran mudiad Merched y Wawr



Mari McNeill, Prif Weithredwr Cymru, fu'n llywyddu'r digwyddiad, a Tom yn derbyn cerdd gan Mererid Hopwood iddo ar ran ei gyd-weithwyr



Tom a Twynog Davies, a gyflwynodd ddiolch ac englynion gan Dylan Iorwerth ar ran pwyllgor lleol Llanbedr PS



Tom ac Anona Defis

O'r byd a'r betws

Ymgyrchu dros Heddwch

Mewn erthygl fachog gan Simon Tisdall yn yr *Observer* (17 Gorffennaf), ceir dadansoddiad treiddgar o'r hyn a allai fod ym meddwl Arlywydd Rwsia wrth weld byddinoedd gwledydd NATO yn closio at y ffiniau rhwng Gwlad Pwyl a Rwsia. Edrydd fod llygaid Putin ar fwy nag Wcráin. Yr un penwythnos, bu llywodraeth Lithuania yn magu llais cryfach wrth hawlio tiroedd sydd ar hyn o bryd yng ngafael gweinyddol Rwsia ond sydd yn rhan o wlad Lithuania. Rhagwél Tisdall mai'r unig ffordd i atal Putin fydd drwy i NATO gamu ymlaen yn filitaraidd. Mae cerdd Mererid Hopwood 'Newid y Drefn' yn cyhoeddi "trech na chelwydd yw'r gwir di-fael, / trech na'r tywyllwch yw blodyn yr haul."

Mae'n siŵr y bydd gan y rhan fwyaf o ddarlennwyr *Cenn@d* gydymdeimlad â safbwyntiau Cymdeithas y Cymod, a'r mudiadau heddwch. Eto, nawr yw'r amser i ni ofyn sut byddem yn ymateb pe byddai Rwsia'n ymosod ar wledydd gogledd Ewrop. Tebyg y byddai NATO yn sefyll fel un yn erbyn Rwsia, ac y byddai'r llais heddwch yn y lleiafrif.

Gwae ni rhag bod fel Seithenyn yn cysgu tra bo'r môr militaraid yn llifo. Mae angen i Gristnogion gwledydd Prydain siarad ag un llais o blaid datrysidd heddwchlon a sicrhau ein bod mewn deialog barhaus gyda Christnogion Rwsia. Byddai'n dda deall fod y cyrff eglwysig cenedlaethol eisoes yn effro i'r cyrff enwadol cyfatebol yn Rwsia. Yn yr un modd, byddai'n bwysig ein bod yn cefnogi'r cyrff enwadol yn Ewrop yn eu hymdrech hwythau i rannu eu canfyddiadau wrth iddynt siarad â'r cyrff cyfatebol yn Rwsia. Os oes gennym gysylltiadau â'r gwledydd Baltig, ar lefel unigol neu eglwysig, awn ati i feithrin ymwybyddiaeth o bryder gweddigar rhyngom a'n gilydd.

Rhannodd Swyddfa Cytûn wahoddiad Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysedd yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI), i bawb sydd â diddordeb i fynd i gynhadledd [Life Beyond Borders](#), ym Mhrifysgol Gobaith Lerpwl ddydd Mawrth, 8 Tachwedd, eleni. Nod y gynhadledd hon yw deall beth yw goblygiadau ffiniau ar ffoaduriaid yn benodol, ond hefyd ystyried beth yw effaith ffiniau ar y bregus a'r anghenus mewn cymdeithas. Pwy fydd yn cynrychioli ein henwadau ni yno, ac a fydd modd sicrhau adborth o'r gynhadledd ar gyfer ein heglwysig? Mae'n siŵr y bydd Cytûn yn anfon cynrychiolydd, ond a fydd cynrychiolaeth ymarferol o Gymru yn y gynhadledd hon?



Llun Blodau'r haul gan Angie ar Unsplash

Byddwn yn gyfarwydd â gwaith grwpiau fel Médecins Sans Frontières (Meddygon heb ffiniau), ac rydym yn ymwybodol o waith amrywiol gyrrff cenhadol sy'n pontio pob math o agendorau cymdeithasol yn ein gwledydd a'n byd. I'r sawl sydd am ddeunydd o sylwedd i'w ddarllen, yna cadwch lygad allan am lyfr o waith y Parchg Ddr Keith Clements, o'r enw [Appointments with Bonhoeffer: Personal Faith and Public Responsibility in a Fragmenting World](#) (T&T Clerk; Bloomsbury) sydd i'w gyhoeddi'r mis hwn (Awst 2022). Gobeithio y bydd adolygiad ohono yng ngholofnau *Cenn@d* yn fuan. Mae'n amhosibl i unrhyw un ddarogan beth fydd pris tanwydd a bwyd erbyn tymor y diolchgarwch eleni. Er bod gwledydd Ewrop wedi siarad yn rhyfeddol o gytûn dros y gwanwyn a'r haf, a fyddwn yn gweld enghreifftiau brawychus o'r hyn a eilw Dr Clements yn 'fragmenting world'?

Pa fath o arogleuon mae ffroenau barus Mr Putin yn ymateb iddynt, ac a fydd cyfoethogion byd yn gweld grawn ac olew fel y gwelwyd brechlynnau gwrth Covid, gan sicrhau mai'r trechaf gaiff eu bodloni gyntaf, a gadael y tlodion i gladdu eu meirwon?

Denzil John

Llongyfarch a gwerthfawrogi gwasanaeth

Yn y llun gwelir y Parch. Eric Greene, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, yn cyflwyno i'r Parch. Cledwyn Griffith dystysgrif sy'n nodi 70 mlynedd o wasanaeth i Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Dechreuodd ei weinidogaeth ym Mrymbo, ger Wrecsam, yn 1952 ac wedyn treulio rhai blynyddoedd yn Lerpwl cyn symud i'r Fflint yn 1968. Ymddeolodd oddi yno yn 1991 pan oeddwn i'n digwydd bod yn Llywydd Henaduriaeth Sir Fflint. Cyflwynwyd ein diolch diffuant iddo am oes o wasanaeth.

Eric Greene



'Trysorau Newydd a Hen'

Fy hoff emyn

Bydd gan bob un ohonom emyn – neu emynau yn wir – sy'n crisialu profiad, yn cysuro ein henaidd, yn annog ffydd, neu'n ein herio i weithredu dros efengyl Iesu Grist. Yn ystod yr wythnosau nesaf cawn rannu ym mhrofiad nifer o gyfranwyr fydd yn cyflwyno cyfoeth y trysorau sydd yn ein hemynau traddodiadol, ac yn ein cyflwyno hefyd i emynau cyfoes sy'n cael eu canu gan genhedlaeth newydd sy'n codi yn ein plith. O storffeydd mawl yr eglwys, sy'n ymestyn drwy'r canrifoedd, dygir allan drysorau newydd a hen i'n cyfoethogi ni heddiw. Y tro hwn, y Parch. Gwenda Richards sy'n ein harwain i werthfawrogi ei hoff emyn.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
myfi yn dlawd, heb feddu dim,
ac yntau'n rhoddi popeth im.

Ei ganmol bellach wnaif o hyd,
heb dewi mwy tra bwy'n y byd;
dechreuais gân a bery'n hwy
nag y ceir diwedd arni mwy.

William Williams


Mae gen i sawl hoff emyn ac yn eu plith y mae'r emyn byr ac eitha syml hwn o eiddo'r Pêr Ganiedydd. Yn ei symlrwydd yn sicr y mae ei gyfoeth: 'Eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd ac a breswylia ynddo.' (Salm 24:1)

Datgan a wna'r Salmydd mai Duw biau'r cyfan oll! Eiddo Duw ydym ni a'r cyfan a feddwn, ynghyd â'r byd yr ydym yn byw ynddo. Mae'n duedd gyffredin heddiw i gredu mai ein heiddo ni yw'r byd, ac o'r herwydd fod gennym yr hawl i wneud fel y mynnwn ag ef. Gwyddom yn rhy dda beth yw effaith y meddylfryd hwn ar ein byd, wrth i'n hunanoldeb a'n difaterwch arwain at newid hinsawdd a chynhesu byd-eang.

Fel plant Duw sy'n credu ein bod wedi ein creu ar ei lun a'i ddelw, oni ddylem fod ar flaen y gad yn yr ymgyrch i achub y blaned rhag difodiant? Eiddo Duw yw'r cyfan: pob gardd a chae, pob tref a phentref, pob gwlad a theyrnas. Bywyd ar fenthyg yw ein bywyd, ac o gredu hynny rhesymol yw credu mai ar fenthyg y mae ein holl eiddo yn ogystal. Rhyw ddiwrnod, bydd gofyn i ni gyflwyno'n ôl i Dduw yr hyn sy'n eiddo iddo. 'Ar dy drugareddau / yr ydym oll yn byw', meddai Elfed, a dyna sy'n wir.

Un peth sydd wedi fy mlino ers blynyddoedd bellach yw'r duedd sydd ynom fel credinwyr i edrych ar yr eglwys leol fel clwb ac iddo dâl aelodaeth blynyddol. Nid clwb mohoni, ond yn hytrach cymdeithas o bobl Dduw sy'n haeddu ein gorau mewn gwasanaeth a haelioni, gyda'r aelodau cryfaf yn cynnal y gwannaf yn ein plith. Arfer arall sydd wedi mynd ar gynydd yw symud y cyhoeddiadau a'r casgliad o ganol yr oedfa i'w dechrau, a hynny'n awgrymu nad oes a wnelo'r ddeubeth un dim â'r addoliad. Beth bynnag am y cyhoeddiadau, credaf y dylai'r casgliad gael lle canolog ac urddasol ym mhob oedfa oherwydd ein braint bob amser yw cyfrannu i waith y Deyrnas.

Cawn gyfle ym mhob oedfa i gydnabod ein llwyr ddibyniaeth ar Dduw. Plygu ger ei fron mewn gwyleidd-dra gyda'n calonnau'n



agored led y pen i dderbyn ei roddion gwerthfawr yn rhad trwy ras. Ystyr gras yw cariad at yr annheilwng, ac yn ei haelioni fe rydd Duw i ni lawer mwy na'n haeddiant.

Rwy'n hoff iawn o gyfieithiad beibl.net o Salm y Bugail:

Yr Arglwydd yw fy mugail i;
mae gen i bopeth dwi'i angen ...
Rwy'ti'n tywallt olew ar fy mhen,
mae gen i fwy na digon! (Salm 23:1 a 5b)

Mwy na digon o nerth i'n cynnal mewn hawddfyd ac adfyd. Mwy na digon o drugaredd a maddeuant, a'r cyfan trwy ras ein Harglwydd Iesu Grist.

Gwenda Richards

Gwahoddiad i ddathlu yn Seion

Eleni mae Capel Seion, Llanelli, yn dathlu 200 mlynedd ers sefydlu'r achos yng nghanol y dref. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd i ddathlu'r achlysur ac fe estynnwn groeso cynnes i chi ymuno â ni.

Estyn allan

Gwelwyd cyfle i genhadu ym mysg plant a phobl ifanc y fro, a threfnwyd cyfarfodydd yn Theatr y Ffwrnes yng nghwmni Martyn a Meilyr Geraint ar 21 Medi.

Cofio'r gorffennol

Fel rhan o'r dathlu, gwahoddwyd y Parch Ddr Densil Morgan i draddodi darlith ar 'Hanes Bedyddwyr Llanelli'. Cynhelir y ddarlith ar 24 Medi am 4 o'r gloch yng nghapel Greenfield (sydd ar gornel Heol Murray/ Heol yr Orsaf, Llanelli, SA15 1DJ).

Carina Jones


Capel y Beirdd yn dathlu'r 200

Brafiawn gallu adrodd i'r dathliad a gynhaliwyd yng Nghapel y Beirdd dros benwythnos 2-3 Gorffennaf fynd rhagddo'n llwyddiannus iawn. I ddechrau, roedd y tywydd o'n plaid – a diolch am hynny gan mai taith gerdded eitha heriol oedd o'n blaenau ar y bore Sadwrn.



Rhan o'r gynulleidfa yng Nghapel y Beirdd

Ond cyn cychwyn, a phawb wedi ymgynnull yn y capel, cafwyd cyfle i gamu'n ôl i'r gorffennol yng nghwmni criw bychan oedd wedi dod at ei gilydd i ail-greu rhyw funud mewn hanes ar aelwyd y Betws Fawr, cartref Robert ap Gwilym Ddu. Meinir Pierce Jones, Botacho Wyn, Nefyn, a luniodd y ddrama a Brian Ifans, Llanystumdwy, aeth ati i gyfarwyddo.



Cast y ddrama (o'r chwith): Meinir Pierce Jones, Carys ac Efan Tomos, Gwynne Wheldon Evans, John Dilwyn Williams a Miriam Williams

Cafwyd cyfle i gydganu dau o emynau Robert ap Gwilym Ddu, ac ar ddiwedd y ddrama cawsom ein hannog gan Cybi (John Dilwyn Williams) i droedio rhai o hen lwybrau Eifionydd. A dyna wnaethpwyd. Cerddodd tyrfa o tua phedwar ugain o bobol o bob oed ar hyd y ffordd tua'r Betws Fawr, lle cafwyd cyfle i weld y garreg goffa.

I lawr wedyn dan arweiniad Richard Parry, Gwindy, at y Lôn Goed, heibio Hidiart a hen gapel Engedi, ac i'r lôn bost yn Afon-wen. Roedd llwybr caletach dan draed wedyn wrth i ni wneud ein ffordd ar hyd y palmant i gyfeiriad Aber-erch. (Roedd y daith i gyd yn 7.3 milltir, yn ôl un teithiwr talog!)

Bu hen sgwrsio ar y daith, a braf ynghanol y pnawn oedd cyrraedd Eglwys Sant Cawrdaf yn Aber-erch a chael croeso cynnes yno. Roedd llawer ohonom yn camu i mewn i'r eglwys am y tro cyntaf erioed ac yn rhyfeddu at y ffenestri lliw hynod gain sydd yno. Cafwyd gair o ddiolch i bawb gan Meinir ac ategwyd hynny gan y Parchedig Aled Davies, a eglurodd fod syniad Meinir o drwsio ac ailosod rhywfaint ar fedd Bardd y Betws wedi ysgogi Cyngor Cymuned Llanystumdwy i fynd ati i wneud yr un peth i amryw o feddau rhai o'n llenorion ym mynwentydd y fro. Bydd y cyfan, gobeithio, wedi ei gwblhau cyn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

Wedi i ni ganu'r emyn anfarwol 'Mae'r gwaed a redodd' unwaith yn rhagor yn Eglwys Aber-erch derbyniodd amryw o'r criw wahoddiad cynnes iawn Iwan a Bethan Edgar i'w cartref, Plas Hendref, oedd ryw led cae i ffwrdd. Yno cawsom luniaeth ysgafn a chyfle i ryfeddu at y tŷ hynafol a'r gerddi gwych y mae Iwan a Bethan yn eu gwarchod mor ofalus. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.



Y cerddwyr yn cael hanes Robert ap Gwilym Ddu gan John Dilwyn ar iard y Betws Fawr

Rhan o ddathliad daucanmlwyddiant Capel y Beirdd oedd y daith gerdded, wrth gwrs, ac i orffen y penwythnos, am 8 o'r gloch ar y nos Sul, daeth cynulleidfa deilwng o gantorion at ei gilydd i gynnal Cymanfa Ganu. Yr arweinydd eleni oedd Dafydd Roberts, Yr Hafod, Llithfaen, ac wrth yr organ fel arfer yr oedd Mrs Elizabeth Roberts, Penrhyndeudraeth. Cafwyd cyfle hefyd i ddiolch i Gwilym Plas am ei gyfraniad fel arweinydd dros y blynyddoedd, a llwyddodd yntau i'n harwain i ganu'r emyn enwog eto, ond y tro hwn ar dôn wahanol i'r diwrnod cynt. Recordiwyd y Gymanfa gan gwmni Parrog ar gyfer rhaglen *Caniadaeth y Cysegr*. Diolchwyd yn gynnes i bawb a fu ynglŷn â'r holl weithgareddau gan y Parch. Aled Davies.



Pleser gan y Parchg Beti-Wyn James oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl yn rhodd i blant Blwyddyn 6 yn Ysgol Bancyfelin a fydd yn symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi. Mae'r Beiblau yn rhoddion gan eglwys Annibynnol Cana ac Eglwys Bresbyteriaidd Bancyfelin. Dymuniadau gorau i'r plant.

Cofio John Richard Jones, Ramoth (1765–1822)

Enwad newydd a sefydlwyd yng Nghymru tua diwedd y ddeunawfed ganrif oedd enwad y Bedyddwyr Albanaidd, a dyma ddwyn i gof rai sylwadau am y sylfaenydd a fu farw ddeucan mlynedd yn ôl.

Ganed John Richard Jones, sy'n fwy adnabyddus fel J. R. Jones, Ramoth, ym Mryn Melyn, Llanuwchllyn, Meirionnydd ar 13 Hydref 1765. Roedd ef a'i deulu'n perthyn i enwad yr Annibynwyr ac yn addoli yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, lle dechreuodd bregethu. Trodd at y Bedyddwyr, fodd bynnag, a chafodd ei fedyddio yn Nhrawsfynydd cyn ei sefydlu'n weinidog eglwys Ramoth, Llanfrothen – canolfan Bedyddwyr Meirionnydd – a'i changhennau ym 1789.

Daeth dan ddylanwad yr Albanwyr John Glas, Robert Sandeman ac Archibald McLean a'u syniadau am gred a threfn eglwysig. Bu'n gohebu'n helaeth â McLean, sef yr un a roddodd wisg Fedyddiedig i'r syniadau hyn. Y canlyniad oedd i J. R. Jones adael Cyfundeb y Bedyddwyr ar ddiwedd 1798 a ffurfio enwad y Bedyddwyr Albanaidd. Ei nod oedd 'adfer ordinhadau ac arferion yr Eglwys Fore, pwysleisio ochr ddeallol ffydd, newid dull pregethu y pregethwyr poblogaidd gyda'u hwyl Fethodistaidd a'u damhegu parhaus ar yr Ysgrythurau, a "neidio" gorfoleddus y cynulleidfaoedd'.

Bu Christmas Evans yn ei gynorthwyo'n fawr i ledaenu ei syniadau rhwng 1795 a 1798, ond ymbellhaodd oddi wrtho pan ymneilltuodd oddi wrth gorff y Bedyddwyr yng Nghymru, uno â Bedyddwyr yr Alban, a sefydlu enwad y Bedyddwyr Albanaidd. Dilynwyd eglwys Ramoth i'r ymneilltuad gan eglwysi Harlech a Thrawsfynydd ym Meirion, Cricieth a Llanllyfni yn Arfon, a Rhosllannerchrugog a Bryndeunydd yn sir Ddinbych. Rhwygwyd yr eglwysi yn Nolgellau, Glyn Ceiriog a Rhuthun, gyda rhai aelodau o blaid y drefn newydd ac eraill ddim.

Bu J. R. Jones yn gweinidogaethu i'r enwad newydd am weddill ei oes. Bu farw 27 Mehefin 1822.

Cofiannydd iddo oedd cyn Aelod Seneddol Wrecsam, James Idwal Jones (1900–82), a ddaeth yn weinidog di-dâl gyda'r Bedyddwyr Albanaidd yng Nghymru ym 1924. Roedd yntau'n frawd i Thomas William Jones (Arglwydd Maelor, 1898–1984), cyn Aelod Seneddol Meirionnydd a phregethwr lleyg.

Yn ŵr dawnus a galluog, roedd J. R. Jones yn un o bregethwyr mwyaf dylanwadol ei gyfnod. Meddai'r *Bywgraffiadur Cymreig* amdano:

Gŵr amryddawn ydoedd, o alluoedd disglair, â diddordeb mewn pob math o wybodaeth. Gwyddai rywfaint o Roeg, Lladin, a Hebraeg; yr oedd yn dipyn o beiriannydd ac yr oedd iddo ddiddordeb mewn mathemateg; yn ei ffordd ei hun, gydol ei oes, arferai grefft meddyg gwlad. Tystir i'w lais soniarus a'i ddawn canu, a medrai hefyd beroriaeth a gwyddor canu. Ymhoffai yng nghrefft barddoniaeth, ac yr oedd yn gyfaill ac yn athro diwinyddol i Robert ap Gwilym Ddu a Dewi Wyn.

Cyhoeddodd sawl casgliad o emynau, a gwelir un emyn o'i eiddo yn *Caneuon Ffydd*, sef Emyn 216: 'Duw mawr y rhyfeddodau maith', cyfieithiad o emyn Dr Samuel Davies (1723–61).

Mae pob pennill yn yr emyn hwn yn diweddu â chwestiwn rhethregol. Wrth drafod yr emyn yn *Emynau'r Ffydd* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2014), dywed Huw Powell Davies: 'nad oes neb yn gallu cynnig i ni dduw tebyg i'n Duw ninnau, sydd wedi cynnig y fath faddeuant nad yw'n dibynnu ar weithredoedd pobl nac ar eu gallu ond maddeuant sydd o ras yn unig.' Does dim



modd cymharu ein Duw ni â duwiau eraill. Mae, yng ngeiriau'r Salmidd, 'goruwch yr holl dduwiau'. (Salm 94:6)

Daw arwyddocâd y pwyslais yng nghwpled clo'r tri phennill ar y gair 'rhad' yn fwy clir wrth ystyried hanes bywyd a gwaith J. R. Jones. Roedd yn credu fod nifer o bregethwyr poblogaidd y cyfnod yn pregethu 'rith ras' yn hytrach na 'rhad ras', sef bod yn rhaid wrth brofiad mewnlol o iachawdwriaeth – ac o bosibl, weithredoedd da – cyn y gallai gas fod yn weithredol. I J. R. Jones, fodd bynnag, roedd iachawdwriaeth yn dod yn llwyr ac yn gyfan gwbl oddi wrth Dduw, yn annibynnol ar deimlad yr unigolyn, ac felly'n hollol wrthrychol. A dyma gyfle i chi fwynhau emyn mawr J. R. Jones:

Duw mawr y rhyfeddodau maith,
rhyfeddol yw pob rhan o'th waith,
ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw
na'th holl weithredoedd o bob rhyw:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

O maddau'r holl gamweddau mawr
ac arbed euog lwch y llawr;
tydi yn unig fedd yr hawl
ac ni chaiff arall ran o'r mawl:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

O boed i'th ras anfeidrol, gwiw
a gwyrth dy gariad mawr, O Dduw,
orlenwi'r ddaear faith â'th glod
hyd nefoedd, tra bo'r byd yn bod:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Ddr Desmond Davies am ei gymorth gyda'r erthygl hon.

*Alun Charles
(O 'Papur y Priordy', Mehefin 2022)*

O'r Beibl: 12

Y Gwynfydau (5)

'Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.'
(Mathew 5:6)

Y pedwerydd gwynfyd yw: 'Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder'.

Sgwn i pa bethau sy'n dod i'n meddwl pan glywn y geiriau 'newynu a sychedu'? Efallai mai'r peth cyntaf sy'n dod i'n meddwl yw'r lluniau brawychus hynny o bobl anghenus yn newynu a sychedu am fwyd a diod yng ngwledydd tlotaf y byd. Neu efallai ein bod ni'n meddwl am y ffordd mae ein cymdeithas Orllewinol, fodern yn 'newynu a sychedu' am bob math o wahanol bethau: am arian, am eiddo, am gar newydd, am dŷ cyfforddus, am iechyd da, am enw a phoblogrwydd.

Ond beth mae 'newynu a sychedu' am rywbeth yn ei olygu? Yn ddi-os, newyn a syched yw rhai o'r teimladau ffisegol cryfaf y gallwn eu profi fel pobl ddynol. Nid yw 'newynu a sychedu' am rywbeth yn golygu ein bod 'eisiau' rhywbeth, ond ein bod yn wirioneddol yn 'dyheu' (hynny yw, yn 'ysu' o waelod calon) am rywbeth. Yn Gymraeg, rydym weithiau'n dweud ein bod 'bron â marw' eisiau rhywbeth. Dyma beth mae'n ei olygu i 'newynu a sychedu' am rywbeth. Ni allwn fyw heb gael y peth hwnnw.


Er bod ein byd Gorllewinol yn newynu am gymaint o bethau gwahanol, yn adnod 6, mae Iesu'n dweud fod pob Cristion i 'newynu a sychedu' am rywbeth arall. Rydym i newynu a sychedu 'am gyfiawnder'.

Beth mae Iesu'n ei olygu wrth ddefnyddio'r gair 'cyfiawnder' yma? Yn sylfaenol, mae'r gair 'cyfiawnder' yn sôn am ein cymeriad a'n hymddygiad fel Cristnogion. Mae 'cyfiawnder' yn golygu byw'n gywir ac yn gyfiawn fel pobl Iesu yn y byd hwn. Mae'n golygu byw'r ffordd mae Duw eisiau i ni fyw gan fod yn ufudd iddo ym mhob rhan o'n bywydau. Mae 'cyfiawnder' yn golygu byw'n debyg i Iesu, Mab Duw, yn ein bywydau bob dydd. Wedi'r cyfan, Iesu yw'r un mwyaf 'cyfiawn' yn ei gymeriad a'i ymddygiad.

Sylwch sut mae pob gwynfyd yn adeiladu ar sail yr un blaenorol. Yn y gwynfyd cyntaf (Mathew 5:3), mae Iesu'n dweud fod Cristnogion yn bobl sy'n 'dlodion yn yr ysbryd'. Hynny yw, maen nhw'n edrych y tu mewn i'w calonau gan sylwi ar eu tloidi ysbrydol. Yna, yn yr ail wynfyd, wedi iddynt sylwi ar eu tloidi ysbrydol, maen nhw i 'alaru' am eu pechod (Mathew 5:4). Ond wrth iddynt alaru am eu pechod, maent hefyd i fod yn 'addfwyn' (Mathew 5:5). Hynny yw, maen nhw i fyw bywydau gostyngedig gan ddibynnu'n llwyr ar Dduw. Fodd bynnag, wrth iddynt wneud hyn i gyd (h.y. sylwi ar eu tloidi ysbrydol, galaru am eu pechod, byw yn ostyngedig), maen nhw hefyd i 'newynu a sychedu' am gael bod yn debyg i Iesu, am gael bod yn gyfiawn ac yn ufudd i Dduw.

Ydyn ni'n bobl sy'n newynu ac yn sychedu am gyfiawnder heddiw? Oherwydd gall y byd sydd o'n cwmpas wneud i ni ddyheu am bob math o bethau eraill. Yn wir, yn rhy aml, gallwn newynu a sychedu am yr un pethau â'r byd yn hytrach nag am yr hyn mae Iesu wedi dweud wrthym am newynu a sychedu amdanynt. Gallwn ddyheu ac ysu yn fwy am arian, am enw da, am boblogrwydd, am gyffordduswydd, am eiddo, nag am gael byw yn ufudd i'r Arglwydd Iesu. Rydym angen maddeuant am wneud hyn. Newyddion hyfryd yr efengyl Gristnogol ydy fod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn i ni gael maddeuant am ddyheu am bob math o bethau anghywir.

Ond nid yw'r gwynfyd hwn yn gorffen yn y fan hon. Mae Iesu yn gorffen y gwynfyd drwy ychwanegu'r geiriau canlynol: 'Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.' Mae 'digon' yn air arall am 'ddiwallu' angen neu am 'fodloni' rhywun yn llwyr. Er enghraifft, mae'r person sy'n newynu ac yn sychedu am fwyd a diod yn cael ei 'ddigoni' gan wledd o fwyd a diod. Sut felly mae'r



person sy'n newynu ac yn sychedu am 'gyfiawnder' yn cael ei 'ddigoni'?

Ni fydd ein newyn a'n syched am gyfiawnder yn diflannu yn y bywyd hwn. Wedi'r cyfan, mae 'newynu a sychedu' yn golygu ein bod yn dyheu am rywbeth sydd eto i ddod. Er ein bod ni wedi ein hachub rhag canlyniad a phŵer ein pechod gan Iesu, mae pechod yn dal i fod yn rhywbeth sy'n effeithio arnom bob dydd. O ganlyniad i hyn, ni fyddwn yn gallu byw'n gwbl gyfiawn ac yn gwbl ufudd i Iesu yn y bywyd hwn. Ond, pan ddaw Iesu'n ôl, byddwn ni'n cael ein 'digoni' yn llwyr! Byddwn ni'n cael gweld Iesu – yr Un cyfiawn – wyneb yn wyneb. Ar y diwrnod mawreddog hwn, bydd Iesu'n cael gwared o'n pechod yn llwyr a byddwn ni'n rhydd i fyw yn gyfiawn ac yn ufudd i Dduw am byth.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth mae'n ei olygu i 'newynu a sychedu'? Pa fath o bethau mae'r byd yn newynu a sychedu amdanynt heddiw?
- Beth yw ystyr 'newynu a sychedu am gyfiawnder'?
- Sut fydd Cristnogion yn cael eu 'digoni'?

Gwilym Tudur

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 21 Awst, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfraniad archdderwyddon i'n hemynyddiaeth – rhaglen 4. Christine James sy'n trafod cyfraniad ein harchdderwyddon i'n hemynyddiaeth.

Sul, 21 Awst, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Gareth a Lydia Power, Cydweli.

Cyfarfod Blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul, a hynny eto dros Zoom, er hwylustod i'r aelodau ac mewn ymgais i leihau'r teithio a'r ôl-troed carbon o bob cornel o Gymru. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Parch, Jennie Hurd, a chafwyd adroddiadau gan Aled Davies, y Cyfarwyddwr, ac Idris Hughes, y Trysorydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Cyfarwyddwr:

Bu 2021 yn flwyddyn arall lle roedd Covid yn dal yn amlwg yn ein cymunedau. O'r herwydd, ni chynhaliwyd y digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr un modd, ni lwyddwyd i gael stondinau yn y cynadleddau enwadol na chwaith i gynnal nosweithiau hyfforddiant ac adnoddau. Bellach, mae llawer o ysgolion Sul lleol heb gyfarfod ers dwy flynedd, a nifer o athrawon yn dweud wrthym nad ydynt yn teimlo y gallant ailgychwyn am amryw resymau. Mae hon felly yn her wirioneddol i eglwysi ac arweinwyr ar gyfer y blynyddoedd nesaf, wrth feddwl am ffyrdd i gyrraedd plant a theuluoedd. Bydd y realiti hwn, rwy'n siŵr, yn ffocws arbennig i'n gwaith ni ar gyfer 2022 a thu hwnt, wrth feddwl am ffyrdd o ailgysylltu ac ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Ond er ein pryder am y sefyllfa, mae'n braf adrodd hefyd i lawer o broiectau gael eu gwireddu, gyda nifer o ddeunyddiau print a llu o adnoddau digidol yn ymddangos. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio parhawydd i gynnal llawer o weithgarwch ar lein, a diolch am y llu o adnoddau digidol a baratowyd gan nifer o fudiadau i'w rhannu am ddim ar y we. Heb os, un o fendithion mawr y ddwy flynedd diwethaf yw bod ein pum gwefan wedi eu cryfhau'n sylweddol, a'n presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu a'i ddatblygu. Cafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd dros Zoom, weithiau ar lefel Cwrdd Chwarter, weithiau ar lefel ofalaethol, ac weithiau rhwng arweinyddion neu athrawon ysgol Sul yn lleol.

Erbyn hyn mae toreth o adnoddau ar gael am ddim ar y we, a'r un pryd mae nifer o gyfresi o werslyfrau mewn print, yn llyfrau athro a llyfrau lliw i blant. Heb os, nid oes prinder adnoddau, a her y dyfodol fydd marchnata ac annog pobl i'w defnyddio. Mae gwers yr Ysgol Sul i oedolion hefyd ar lein erbyn hyn. Bob wythnos cyhoeddwyd gwers a ffilm bwrrpasol yn cael ei chyflwyno gan Denzil John, sydd i'w gweld ar sanel deledu [TCC](#) ar y we. Prin yw'r dosbarthiadau sy'n cyfarfod,



Cyngor Ysgolion Sul

ac o'r herwydd ataliwyd cyhoeddi gwers wythnosol newydd tan fis Medi 2022.

Bu i ni ryddhau llawer o adnoddau newydd ar ein tudalennau Facebook a gosod adnoddau newydd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys myfyrdodau tymhorol, gweddïau, llyfrau gweithgaredd a lliwio i blant, a chyfres o wersi ysgol Sul ar gyfer y cartref. Cynhyrchwyd adnodd ar y Grawys i blant yn seiliedig ar *Beibl Bach Stori Duw*, llyfr myfyrdodau a lliwio ar y Grawys a Gorsafoedd y Groes, ac e-lyfr lliwio o stori'r Pasg. Ar gyfer y Nadolig paratowyd tair cyfres o weddïau, myfyrdodau a gweddïau ar gyfer oedolion, a rhai i deuluoedd eu rhannu gyda'i gilydd.

Llwyddwyd hefyd i gyhoeddi deg cyfrol brint yn ystod 2021, gan gynnwys pedwar Beibl lliw gwahanol i blant, a dwy gyfrol sylweddol o fyfyrdodau a gweddïau o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts.

Mae'r teitlau isod i gyd ar gael yn y siopau lleol:

Y Comic Beiblaidd Anferth – Beibl lliwgar i blant 7–11 oed, wedi ei ddylunio yn arddull y comic *Beano*.

Stori Fwya'r Byd – addasiad o gyfrol i blant 8–13 oed o Feibl yn arddull unigryw'r awdur Tom Gates.

Beibl Storiwr y Teulu – cyfrol newydd sy'n rhyw fath o Agor y Llyfr yn y cartref!

Fy Meibl Lliw – cyfrol addas ar gyfer plant 3–5 oed; Beibl o ffabrig cotwm.

Y Llais – sef fersiwn gwreiddiol Cymraeg o gyfrol yn arddull y Tabloid Bible.

Cymer fy Munudau: gweddïau Elfed – cyfrol o'r holl weddïau gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts.

Gwerth y Funud Dawel: myfyrdodau Elfed – casgliad cwbl wreiddiol o fyfyrdodau gan Elfed ap Nefydd Roberts.

Derbyn a Dilyn Iesu – deunydd gwreiddiol ar gyfer y dosbarth derbyn, wedi ei baratoi gan Elfed ap Nefydd Roberts.

Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona gan Gareth Lloyd Jones.

Cofio Euros gan John Pritchard (gol.) – cyfrol werthfawr i gofio cyfraniad sylweddol un o gymeriadau anwylaf bywyd crefyddol a diwyllianol y Gymru gyfoes, sef Euros Wyn Jones.

Meddyg y Galon Glwyfus: gofal am iechedd meddwl a chymwynas fawr Dr David Enoch gan Robin Gwynndaf.

Mae nifer o gyhoeddiadau newydd ar gyfer 2022 ar y gweill gennym hefyd, gan gynnwys:

Hoff Emynu'r Cymru – cyfrol gan Rob Nicholls lle mae nifer o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff emynau.

Dehongli Bywyd a Gwaith Moses – esboniad gan Gareth Lloyd Jones.

Goreuon 'O Ddydd i Ddydd' – 365 myfyrdod o'r gyfres 'O Ddydd i Ddydd'.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd – deunydd ar gyfer yr Adfent.

60 Mlynedd o Weinidogaethu – cyfrol hunangofiannol gan D. Ben Rees.

Geiriadur y Gair – D. Geraint Lewis a'i eiriadur Beiblaidd.

Llyfr crefftau bwyd Beiblaidd – gwerslyfr yn cynnwys 60 o ryseitiau coginio.

Llyfr gemau Beiblaidd – gwerslyfr yn cynnwys dros 200 o gemau Beiblaidd.

Llyfr arbrofion gwyddoniaeth Feiblaidd i blant – gwerslyfr yn cynnwys dros 60 o arbrofion gwyddonol.

Myfyrdodau Grawys Coeden Iesu – casgliad o 40 ffilm fer, a 40 myfyrdod a gweddi ar gyfer y Grawys.

Medalau Gee

Gan na fu'n bosib cynnal dau gyfarfod torfol eleni, penderfynwyd cynnal nifer o gyfarfodydd lleol i gyflwyno medalau. Cyflwynwyd 21 medal Gee, a thair medal arbennig er anrhydedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyflwyno yn Amlwch, Wrecsam, Llanddarog, Llanybydder, Rhydaman, Caerfyrddin a Dre-fach. Bu i'r Cyngor gymeradwyo dyfarnu tair medal Gee er anrhydedd yn 2019 i dri a wnaeth gyfraniad nodedig i weinidogaeth plant yng Nghymru, sef y Parchedig Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies. Wedi dwy flynedd o oedi, braf fu cael cyflwyno'r medalau iddynt hwythau hefyd yn ystod Hydref 2021.

Mawr obeithiwn y bydd modd dechrau trefnu ymweliadau a gweithgareddau eto yn fuan ac y cawn gyfle i gyfarfod ein cefnogwyr wyneb yn wyneb wrth adeiladu model hybrid o fod yn eglwys a chymuned Gristnogol.

Gan ddiolch am bob cefnogaeth.

Aled Davies
Cyfarwyddwr

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Trugaredd a threfn

Darllen: Eseia 58:9b–14

O Dduw, yr hwn a leferaist mewn llawer dull a modd drwy'r proffwydi ac a leferaist wrthym ni yn y dyddiau olaf yn dy Fab, lesu Grist, llefara wrthym ninnau eto heddiw drwy fywau dy Air yn ein clyw ac yn ein profiad drwy dy Ysbryd Glân.

Emyn 188: 'Fy enaid, gorfoledda'

Darllen: Luc 10:17

'Gwên deg a gwenwyn dani'

Os ydym yn cydymdeimlo â Boris Johnson yn San Steffan, neu â'r rhai a gynghreiriodd i'w ddiorseddu, bydd y cyhuddiad o 'ragrith' yn taro tant gyda llawer iawn o'r etholwyr. 'Rhagrithwyr', meddai'r sylwebyddion oedd yn cefnogi Mr Johnson, yw'r rheiny a ymddangosodd ar y cyfryngau, am fisoedd lawer, i amddiffyn a chefnogi'r Prif Weinidog cyn iddynt gefnu arno pan nad oedd elw i'w gyrfaeod gwleidyddol eu hunain.

'Rhagrithwyr' oedd dewis air Iesu i ddisgrifio'i wrthwynebwywr wrth i'w gelyniaeth ddwysáu. Er eu dawn i fedru darllen arwyddion y tywydd, gwrthod y gwas hwnnw ar ei ymddangosiad a wnaeth yr union bobl oedd yn disgwyl yn ddefosynol am ddyfodiad Gwas yr Arglwydd (12:56).

Heb edifeirwch, 'fe dderfydd amdanoch oll' (13:5), meddai Iesu. Crefyddda diffryth oedd eu rhith o ysbrydoledd. Coeden oedd yn wynebu cael ei thorri i lawr oni ddygai ffrwyth i'r Meistr (13:6–9).

Yn awr mewn synagog anhysbys, rywle ar y ffordd tuag at Jerwsalem a'r groes a'r atgyfodiad, datgelwyd anghysondeb a rhagrith crefydd yr allanolion.

Gwraig wargrwm

Nid yw Iesu yn condemnio'r wraig er bod drygioni, bod 'y satan', cyhuddwr a chondemniwr a gwrthwynebydd teyrnas Dduw wedi ei chaethiwo a'i chlwyfo. Er ei hanabledd amlwg, roedd hi yn y synagog y diwrnod hwnnw yn ceisio Duw. Nid yw Luc chwaith yn awgrymu ei bod wedi mynd i'r synagog y bore hwnnw gan ddisgwyl unrhyw beth allan o'r cyffredin. Er ei chyflwr, nid yw Iesu'n ddbribis ohoni.

Dywedir amdani ei 'bod yng ngafael ysbryd oedd yn ei gwanychu'. Efallai mai effaith rhywbeth a ddigwyddodd iddi flynnyddoedd lawer ynghynt a dorrodd ei hysbryd. Tybed ai trais, neu gam, neu siom ofnadwy,

tristwch neu euogrywydd, neu gywilydd o ryw fath, a barodd i'w hysbryd 'wanychu' nes ei bod o dan eu gormes yn crymu?

Duw a wŷr faint o bobl sy'n cario yn eu cyrff effeithiau camdriniaeth feddyliol ac ysbrydol. Duw a wŷr gymaint a glwyfyd yn eu henaidd, eu hysbryd, a'u meddwl gan amgylchiadau a phrofiadau nad oeddynt hwy eu hunain yn gyfrifol amdanynt.

Arweinydd y synagog

Tramgwyddwyd arweinydd y synagog gan **beth ddywedodd Iesu**. Fe ellid bod wedi tybied y câi Iesu ei wahodd gan arweinydd y synagog i ddweud gair. Wedi'r cyfan, nid bob Saboth y byddai proffwyd teithiol adnabyddus yn ymweld â'r synagog.

Nid arhosodd Iesu i gael ei wahodd i ddweud gair. 'Galwodd arni' a chyhoeddi addewid i'r wraig anghenus, yng nghlyw'r gynulleidfa, fod ei 'gwendid' ac achos y gwendid wedi ei symud oddi wrthi.

Nid geiriau yn unig a glywodd y wraig, oherwydd ymestynnodd Iesu i'w chyffwrdd a'i nerthu i sefyll yn syth. Daw'r efengyl atom bob un, nid mewn gair yn unig ond hefyd drwy gyffyrddiad gasol o'r Ysbryd Glân. Tramgwyddwyd arweinydd y synagog gan **gyffyrddiad Iesu** ac **ymateb byrlymus y wraig** pan ddechreuodd ogoneddu Duw yn llawen ac yn llafar. Hyd heddiw, gall ymateb 'emosiynol' beri i grefyddwyr parchus wgu.

Mae yna ryw beth trist a chomig, bron, yn ymateb arweinydd y synagog. Mae'n drist am na allodd ryfeddu gyda'r gynulleidfa ac ymuno yn y mawl yr oedd ef ei hun yn ceisio'i sbarduno! Mae'n gomig am ei fod, yn ei ddicter, yn ceisio mynd heibio i Iesu a'r wyrth y bu'n dyst iddi, gan gystwyo'r gynulleidfa na ddefnyddiwyd y chwe diwrnod arall i ddod i'r synagog i gael eu hiacháu.

Ond y tramgwydd pennaf i arweinydd y synagog oedd fod Iesu wedi chwyldroi dysgeidiaeth athrawon y Gyfraith ac wedi methu **cadw'r Saboth**, fel y diffiniwyd hynny ganddynt.

Cefndir hanesyddol

Dechreuwyd casglu'r Mishna, oedd yn grynodedd o ddisgeidiaeth y Rabiniaid, tua 30 CC. Cwblhawyd y dasg o grynhoi'r ddisgeidiaeth yn nechrau'r 3edd ganrif OC. Casgliad oedd y Mishna o ddisgeidiaeth y Rabiniaid oedd yn dysgu rhwng 560 CC a 70 OC.

Gelwir y casgliad cyntaf o'r ysgrifau hyn yn Seder Moed (Trefn yr Amseroedd Penodedig) ac mae'n cynnwys esboniad ar nifer o adnodau yn y Beibl Hebraeg (gan gynnwys Exodus 20:9–10 a Deuteronomium 5:13–14). Ceir 26 o benodau'n diffinio sut yr oedd anrhydeddu'r Saboth a bod yn ufudd i Dduw. Ym mhennod 5 ceir cyfarwyddyd ynghylch beth oedd yn briodol wrth drin anifeiliaid ar y Saboth. A oedd gwisgo ffrwyn yn 'faich' ac yn 'waith' i'r creadur? Caniateid gan yr athrawon ddefnyddio bwced i godi dŵr o'r pydew i ddisychedu anifail. Ond fe ystyrir bod dal y bwced i'r creadur yfed ohono yn 'waith' oedd yn torri'r Saboth. Ym mhennod 7 trafodir a oedd datod clymau i'w ystyried yn llafur angenrheidiol ac ystyrir bod ymdrech i iacháu ar y Saboth yn anghyfreithlon.

Gwrthdaro

Tra oedd athrawon y Gyfraith am ddiogelu'r Saboth a'r hyn y gellid ei wneud ar y dydd penodol hwn, mynnodd Iesu fod y gwir Saboth yn gyfle i **ryddhau** beichiau. Rhagrith oedd mynnu cadw allanolion a gwadu'r gair byw (Eseia 58)! Enghraifft arall ydoedd o osod 'traddodiad yr hynafiaid' yn uwch na gair Duw ei hun! (Mathew 15:1–9)

Cywilyddiwyd ei wrthwynebywr a llawenychodd y dyrfa wrth i Iesu ryddhau baich ac iacháu merch Abraham anghenus ar y Saboth.

Mor rhywydd ydyw i ninnau gaethiwo gair Duw gan ein traddodiadau a'n harferion, a rhoi heibio'r dasg ryfeddol o 'ryddhau' y rhai a gaethiwyd gan eu gorffennol, eu hofnau a'u gwendid gormesol.

Mor rhywydd yw cuddio'r tu ôl i 'rith o grefydd, heb ei grym', gan barchu allanolion a defodau crefyddda. Mwy heriol, a mwy angenrheidiol, i ni yw'r alwad i gyfieithu ein geiriau a'n hegwyddorion i ymateb i heriau 'bywyd go iawn' gyda gras a gwirionedd.

Wedi'r cyfan, mae gair a chyffyrddiad Iesu, hyd heddiw, yn parhau i iacháu'r rhai o dan ormes o bob math.

Gweddi

Caniatâ, Arglwydd bywyd, i'th Ysbryd Glân symud yn ein plith i'n hargyhoeddi o realiti iachusol Teyrnas Dduw. Caniatâ i ninnau ddysgu byw mewn ufudd-dod i'n prynwr, Iesu Grist, gan ddysgu gweithredu'r bywyd a blannwyd ynom drwy dy ras. Ein hawydd a'n dyhead yw cael disgleirio 'fel y wawr ... ffynnu mewn iechyd', cael gweld cyfiawnder yn mynd o'n blaenau a 'gogoniant yr ARGLWYDD' yn ein dilyn. Arglwydd, clyw ein cri. Amen.

Emyn 805: 'Rho i mi nerth'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)